Welsh Translation of pamphlet ‘Day for LIFE’

[Front page:]

Diwrnod
Dros
FYWYD
2007
www.dayforlife.org
Bendigedig yw ffrwyth dy groth di

[Inside fold:]

BETH ALLAF I EI WNEUD?

Dysgwch fwy am yr achosion:

- Cadwch i fyny gyda’r newyddion diweddaraf am y pwnc hwn
- Mynnwch fwy o wybodaeth trwy ddarllen y wefan www.dayforlife.org
- Darllenwch wefannau grwpiau eraill yn yr un maes, neu eu holi ar y ffôn am natur a phwrpas eu gweithgareddau
- Ymunwch gyda grwpiau dros-fywyd lleol, ac os nad oes un, beth am ddechrau un?
- Darllenwch ddogfenau’r Eglwys am fywyd. Maen nhw’n ffynhonnell gwybodaeth ac ysbrydoliaeth

Pan fyddwch wedi dysgu dipyn fwy am yr achos, ymunwch â’r ymgyrch!

- Mae’r hyn a allwch ei wneud yn dibynnu ar eich sefyllfa bersonol. Siaradwch gyda rhywun sy’n perthyn i’r grwpiau dros-fywyd a chynnig helpu (gweler y cysylltiadau ar y cefn)
- Os oes gennych syniadau i’w cynnig, cynigiwch nhw i eriall a mynnu mynd ymlaen â phethau
- Ewch i gael sgwrs gyda phobl sy’n rhan o’r ymgyrch eisoes, a chael gwybod beth maen nhw’n ei wneud, ac ymuno gyda nhw

Gall pob un ohonon ni weddio

- Gweddio dros bawb a effeithir gan erthylu. Gweddio beunydd dros faban neilltuol sydd mewn perygl, a gofyn i’r Arglwydd gyffwrdd calon y fam sydd â’r baban yn ei chroth, i roddi iddi’r nerth a’r gwrolder sydd eu hangen arni
- Gweddio dros ein gwleidyddion iddyn nhw gofio bob amser am gysegredigrwydd bywyd wrth wneud eu penderfyniadau. Ac iddyn nhw gael nerth i weithredu’n ol eu hargyhoeddiadau
- Gweddio dros bawb sydd wedi dioddef o erthylu, y babanod, y mamau, y tadau, y teuluoedd, y proffesiwn meddygol, ein cymdeithas a ni’n hunain.
- Rydym i gyd dioddef mewn cymdeithas sy’n caniatau erthylu.

[Photos]
GWEDDIO

Crewyd yr eicon gan Silvia Dimitrova We: www.silviadimitrova.co.uk
Dylunio’r daflen: Helen pooley E-bost: helen.pooley@cbcew.org.uk